**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/KW/1683/20

Elin Jones, MS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Mehefin 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud y Rheoliadau Gofynion y Cwricwlwm (Diwygio paragraff 7(5) o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020) (Cymru) 2020 o dan baragraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf y Coronafeirws 2020 a ddaw i rym ar 23 Mehefin. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Daw'r offeryn hwn i rym cyn y caiff ei osod gerbron y Senedd. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bydd angen cyhoeddi hysbysiad yn datgymhwyso'r cwricwlwm sylfaenol cyn i ysgolion cynyddu eu gweithgareddau. Bydd datgymhwyso'r darpariaethau hyn yn rhoi'r cyfle a'r hyblygrwydd angenrheidiol i ysgolion gael canolbwyntio ar gefnogi'r iechyd a lles y dysgwyr wrth iddynt ddechrau dychwelyd i'r ysgol, gan gydnabod yr ystyriaethau iechyd cyhoeddus parhaus a'r gofynion pellhau cymdeithasol yn golygu y bydd angen dull dysgu cyfunol o ddysgu yn yr ysgol a dysgu o bell hyd y gellir rhagweld.

Yn unol â'r weithdrefn a nodwyd ym mharagraff 8 o Atodlen 17 i Ddeddf Coronafeirws, mae'n rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 26 Medi 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Gallai fod o gymorth i chi wybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ynglŷn â'r is-ddeddfwriaeth hon yn y cyfarfod llawn ar 15 Gorffennaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales


Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad , Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau. a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education